**Rhif: WG48132**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Gorfodi gwaharddiadau a chyfyngiadau ar gynhyrchion plastig untro penodol

Cynigion i wneud rheoliadau sancsiynau sifil o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

Dyddiad cyhoeddi: 18 Awst 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd** | https://www.gov.wales/consultations |
| **ISBN** | **978-1-83504-555-8** |

# Tabl Cynnwys


**Cyflwyniad** .... 4

**Ymatebion i'r ymgynghoriad** .... 6

**Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno â defnyddio hysbysiadau cydymffurfio? Rhowch eich rhesymau.** .... 6

**Cwestiwn 2. A yw'r cynnig i ganiatáu i reoleiddwyr roi cosbau ariannol amrywiadwy yn rhesymol? Rhowch eich rhesymau ac, os yw hynny'n briodol, awgrymu dull amgen. Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg neu gymharol eraill os yw hynny'n briodol** .... 8

**Cwestiwn 3. A ydych yn cytuno na ddylid pennu terfyn uchaf ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy? Rhowch eich rhesymau (ac awgrymu terfyn uchaf os ydych yn credu bod hynny'n briodol).** .... 9

**Cwestiwn 4. A ydych yn cytuno â'n penderfyniad i beidio â chynnwys cosbau ariannol penodedig yn ein rheoliadau? Rhowch eich rhesymau.** .... 10

**Cwestiwn 5. A ydych yn cytuno â chynnwys hysbysiadau stop yn ein rheoliadau? Rhowch eich rhesymau.** .... 11

**Cwestiwn 6. A ydych yn cytuno â chynnwys ymgymeriadau gorfodi yn ein rheoliadau? Rhowch eich rhesymau.** .... 13

**Cwestiwn 7. A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer y mecanwaith apelio? Rhowch eich rhesymau.** .... 14

**Cwestiwn 8. A ydych yn cytuno bod y dull gorfodi cyffredinol hwn yn rhesymol ac yn gymesur? Rhowch eich rhesymau.** .... 15

**Cwestiwn 9. A oes gennych unrhyw dystiolaeth y gallwn ei defnyddio i'n helpu i asesu costau gweinyddu a gorfodi ein sancsiynau sifil arfaethedig?** .... 16

**Cwestiwn 10. A ydych yn credu y gallai'r gyfundrefn orfodi gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg? Rhowch eich rhesymau** .... 17

**Sylwadau eraill: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w codi:** .... 18

**Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf** .... 20

## Cyflwyniad

Y tro cyntaf i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei bwriad i wahardd neu gyfyngu ar y defnydd o nifer o gynhyrchion plastig untro sy’n cael eu sbwriela yn aml oedd yn ystod yr ymgynghoriad ar ei chynigion ym mis Hydref 2020. Roedd y gwaharddiadau arfaethedig mewn ymateb i’r pryderon cynyddol ynghylch effaith niweidiol llygredd plastig ar ein bywyd gwyllt a'n hamgylchedd. Daeth dros 3,500 o ymatebion i law, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt o blaid cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd gyda llawer yn annog Llywodraeth Cymru i fynd ymhellach. Mae'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru ar gael yma

O ganlyniad, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei Bil Diogelu’r Amgylchedd (Cynnyrch Plastig Untro) (Cymru) yn y Senedd ar 20 Medi 2022. Roedd y Bil yn destun proses graffu Senedd Cymru; mae rhagor o fanylion sesiynau tystiolaeth a thrafodaethau'r Pwyllgor ar wefan Senedd Cymru.

Ar 6 Rhagfyr, pleidleisiodd mwyafrif llethol y Senedd dros y Bil a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 6 Mehefin, a thrwy hynny mae bellach wedi dod yn Ddeddf. Mae'r Ddeddf a'i nodiadau esboniadol ar gael yn Legislation.gov.uk.

Mae Adran 5 y Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i berson gyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys am ddim) cynhyrchion plastig untro penodol i ddefnyddiwr yng Nghymru. Mae'r drosedd yn drosedd ddiannod ac felly gellir ei chyflwyno gerbron achos yn Llys yr Ynadon. Os ceir unigolyn yn euog o'r drosedd, caiff y llys roi dirwy ddiderfyn.

Er bod hyn yn rhwystr effeithiol, rydym yn credu y dylai'r awdurdodau lleol yng Nghymru, fel y rheoleiddiwr, fod â mynediad at sancsiynau sifil sy'n hyblyg ac yn gymesur ac sy'n sicrhau bod yr amgylchedd ac iechyd pobl yn cael eu diogelu wrth fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, cafodd pwerau eu cynnwys yn adran 17 y Ddeddf i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno rheoliadau sy'n darparu sancsiynau sifil am y drosedd yn adran 5. Mae'r pŵer hwn yn cyfateb i'r hyn sydd yn Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (p.13) ("RESA"). Er mwyn sefydlu cyfundrefn orfodi amgen i gefnogi'r gwaharddiadau, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i ddefnyddio'r pwerau yn adran 17 a darperir canllawiau i gefnogi'r defnydd o sancsiynau sifil.

Er mwyn sicrhau bod ein cynigion yn cyflawni'r cydbwysedd priodol rhwng darparu cyfundrefn orfodi hyblyg a sicrhau cydymffurfiaeth, gofynnwyd am safbwyntiau ar ein dull arfaethedig o weithredu sancsiynau sifil. Yn yr ymgynghoriad, roedd ein ffocws ar agweddau technegol a gweithredol ar ddefnyddio sancsiynau sifil. Amlinellodd yr ymgynghoriad y dull a ffefrir gennym ar gyfer defnyddio sancsiynau sifil a'r sail resymegol dros y cynigion. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 17 Ebrill a 9 Mehefin 2023.

Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Nid yw'n fwriad, ac ni fyddai'n bosibl, adlewyrchu pob sylw a dderbyniwyd yn yr adroddiad hwn. Y diben yw rhoi trosolwg o'r ymatebion, awgrym o'r mathau o faterion a phryderon a godwyd mewn perthynas â'r cynigion.

Cafwyd cyfanswm o 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r rhain yn cynnwys ymatebion llawn a rhannol, lle gadawyd rhai cwestiynau heb eu hateb.

Roedd y ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd modd i unigolion ymateb yn yr iaith o'u dewis. Rhannwyd yr ymatebion rhwng y ddwy iaith fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cymraeg | 0 |
| Saesneg | 31 |
| Cyfanswm | 31 |

Roedd ymatebwyr yn gallu ymateb gan ddefnyddio tudalen we Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghori neu lawrlwytho ffurflen ymateb a'i chyflwyno i flwch negeseuon e-bost electronig dynodedig. Mae trosolwg o'r rhaniad yn yr ymatebion hyn wedi'i gynnwys isod ac rydym wedi cofnodi hefyd nifer yr ymatebion a gyflwynwyd drwy'r dudalen we mewn camgymeriad (nid oes unrhyw destun na manylion wedi'u cynnwys yn yr ymateb).

| | |
|---|---|
| Ymatebion a gyflwynwyd ar-lein | 20 |
| Ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost | 11 |

Mae dadansoddiad o'r math o ymatebydd yn cael ei ddarparu isod:

| Math o sefydliad | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Grŵp cynrychioliadol Awdurdod Lleol/Awdurdod Lleol | 5 |
| Cyngor Tref neu Gymuned | 1 |
| Sector Cyhoeddus | 1 |
| Dinesydd | 15 |
| Y byd academaidd | 2 |
| Sefydliad elusennol | 2 |
| Corff proffesiynol / Cynrychiolydd diwydiant | 4 |
| Sefydliad cymunedol | 1 |

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

## Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno â defnyddio hysbysiadau cydymffurfio? Rhowch eich rhesymau.

| C1 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Y | N | Ddim yn siŵr / Heb ateb ydw na nac ydw | Dim ateb |
| **Niferoedd** | 26 | 1 | 0 | 4 |
| **Canran** | 84% | 3% | 0% | 13% |

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o blaid defnyddio hysbysiadau cydymffurfio, gyda dim ond un ymatebydd yn anghytuno. Roedd yr ymatebydd hwn yn anghytuno â'r holl gynigion yn yr ymgynghoriad, gan ddweud bod newid ymddygiad yn ddull mwy effeithiol na chamau gorfodi.

O'r rhai a roddodd eu cefnogaeth, roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod hysbysiadau cydymffurfio yn gam cyntaf defnyddiol mewn proses gydymffurfio raddol. Nodwyd bod y dull hwn yn rhoi cyfle i bobl gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio ac o bosibl dileu'r angen am unrhyw gamau pellach. Amlygodd un ymatebydd, awdurdod lleol, fod y dull hwn yn cael ei ystyried yn offeryn gorfodi effeithiol wrth fonitro cydymffurfiaeth â chyfyngiadau COVID-19. Roedd ymatebydd arall yn teimlo bod y dull hwn yn ffordd bwysig o godi ymwybyddiaeth, yn enwedig os oedd prif swyddfa busnes wedi'i lleoli y tu allan i Gymru ac nad oedd yn ymwybodol o'r gwaharddiadau.

Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn gefnogol i'r cynnig ar y cyfan, gan ychwanegu y dylai unrhyw amserlenni a bennir mewn hysbysiadau cydymffurfio fod yn "realistig a chyraeddadwy”. Cyfeiriwyd at y model *"Think Small First*" hefyd sy'n sicrhau bod busnesau llai yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf yn hytrach nag fel ôl-ystyriaeth wrth wneud polisïau. Amlygodd ymatebydd arall yr heriau sy'n wynebu busnesau llai ac awgrymodd fod angen mwy o gefnogaeth i sicrhau eu bod yn barod cyn y gwaharddiadau.

Amlygodd ymateb gan Brifysgol Manceinion yr angen i hysbysiadau cydymffurfio fod yn hygyrch ac yn hawdd eu deall, er enghraifft mewn gwahanol ieithoedd a fformatau. Cyfeiriwyd at y rheoliadau i wahardd microbelenni fel enghraifft o arferion da. Mynegodd ymatebydd arall gefnogaeth ar yr amod bod eu defnydd yn cael ei fonitro a'i uwchgyfeirio pe bai tramgwyddau pellach.

**<u>Ymatebion enghreifftiol</u>**

*“Ydw. Mae hysbysiadau cydymffurfio yn gofnod ffurfiol o'r tramgwydd honedig a bydden nhw'n nodi'n glir y tramgwydd a'r amserlen ar gyfer cydymffurfio gyda'r masnachwr.*

*Byddai hwn yn gam cyntaf addas mewn proses gydymffurfio raddol a gall ddileu'r angen am gamau gorfodi pellach, gan arbed amser ac adnoddau i fasnachwyr a gorfodwyr. Roedd hysbysiadau cydymffurfio yn offerynnau effeithiol a ddefnyddiwyd gan lawer o awdurdodau lleol yn ystod pandemig Covid-19, ac mae gwasanaethau rheoleiddio fel Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach yn gyfarwydd â defnyddio hysbysiadau o'r fath o dan ddeddfwriaeth arall, e.e. cyfraith bwyd".* **Dienw**

*"Maen nhw'n ffordd ragarweiniol o fynd i'r afael â mater dan sancsiynau sifil ac maen nhw wedi gweithio mewn meysydd rheoleiddio eraill".* **Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru.**

## Cwestiwn 2. A yw'r cynnig i ganiatáu i reoleiddwyr roi cosbau ariannol amrywiadwy yn rhesymol? Rhowch eich rhesymau ac, os yw hynny'n briodol, awgrymu dull amgen. Cyfeiriwch at gyfundrefnau tebyg neu gymharol eraill os yw hynny'n briodol.

| | C | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y** | **N** | **Ddim yn siŵr / Heb ateb ydw na nac ydw** | **Dim ateb** |
| **Niferoedd** | 25 | 1 | 1 | 4 |
| **Canran** | 81% | 3% | 3% | 13% |

Cytunodd un ymatebydd, awdurdod lleol yng Nghymru, i'w defnydd, ond awgrymodd fodd bynnag fod cosbau ariannol penodedig (gyda swm wedi'i osod ar lefel genedlaethol) yn ddull mwy ffafriol. Dadleuwyd y byddai cosbau penodedig yn haws i'w gweinyddu ac yn helpu i gyflawni dull mwy cyson ledled Cymru. Mynegwyd pryderon, pe gallai awdurdodau lleol unigol osod lefelau gwahanol o gosbau ledled Cymru, y gallai hyn arwain at nifer o heriau barnwrol. Byddai hyn yn rhoi baich diangen ar wasanaethau rheoleiddio gan y bydden nhw'n ailgyfeirio adnoddau i amddiffyn yn erbyn unrhyw gamau cyfreithiol. Mantais arall gosod lefelau cenedlaethol ar gyfer cosbau penodedig a gyflwynwyd gan yr ymatebydd hwn oedd y gallai hyn arwain at arbedion posibl wrth weithredu prosesau swyddfa gefn. Tynnodd sylw at y profiad o'r manteision a ddaeth yn sgil gweithredu'r trefniadau ar gyfer gorfodi parcio sifil.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod y potensial am anghysondebau gyda chosbau amrywiadwy, ond awgrymwyd y gellid osgoi hyn pe bai arweiniad a hyfforddiant clir ar gael ar gyfer eu defnyddio. Roedd Safonau Masnach Cymru a nifer o awdurdodau lleol Cymru o blaid cosbau amrywiol. Nododd yr ymatebion hyn y byddai dull gweithredu o'r fath yn golygu y gellid cymryd camau gorfodi yn gymesur â maint y drosedd a maint y busnes. Roedd ymatebwyr eraill yn cydnabod bod defnyddio cosbau ariannol amrywiol yn cynnig dull mwy cymesur, gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn benodol yn nodi bod cosbau penodedig yn aml yn peri anfantais anghymesur i fusnesau llai. Teimlad cyffredin a fynegwyd gan ymatebwyr oedd y byddai'r gallu i roi dirwyon mwy i gorfforaethau mawr yn helpu i weithredu fel rhwystr.

O ran darparu canllawiau, amlygodd sawl un yr angen am gyngor clir ar sut y byddai swyddogion gorfodi awdurdodau lleol yn pennu effeithiau amgylcheddol ehangach unrhyw drosedd.

**Ymatebion enghreifftiol**

*O fewn rheswm. Cyn belled â bod cyfnod wedi bod lle darparwyd canllawiau i helpu'r busnesau i wneud y newidiadau sydd eu hangen.* **Unigolyn**

*Ydy, fodd bynnag, dylai fod canllawiau a hyfforddiant strwythuredig clir i reoleiddwyr ar gymhwyso cosbau ariannol er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.* **Dienw**

## Cwestiwn 3. A ydych yn cytuno na ddylid pennu terfyn uchaf ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy? Rhowch eich rhesymau (ac awgrymu terfyn uchaf os ydych yn credu bod hynny'n briodol).

| C3 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y** | **N** | **Ddim yn siŵr / Heb ateb ydw na nac ydw** | **Dim ateb/ sylw** |
| **Niferoedd** | 18 | 7 | 1 | 5 |
| **Canran** | 58% | 23% | 3% | 16% |

Roedd ymatebwyr yn gyffredinol o blaid pennu terfyn uchaf ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy, gyda nifer o'r ymatebwyr yn nodi y dylai unrhyw gosbau ariannol gyd-fynd â'r gosb llys (dirwy ddiderfyn). Unwaith eto, teimlai'r ymatebwyr y byddai hyn yn sicrhau bod unrhyw gosb yn gymesur â maint a chwmpas y busnes.

Awgrymodd eraill y dylid ystyried maint y busnes wrth bennu'r terfyn cosb, gyda chap posibl ar lefelau dirwyon neu raddfa symudol yn dibynnu ar y busnes. Er enghraifft, argymhellodd Prifysgol Manceinion swm cosb newidiol diderfyn ar gyfer corfforaethau mwy ond terfyn penodol ar gyfer busnesau bach a chanolig. Gallai'r terfyn hwn fod yn seiliedig ar ganran o'r refeniw o werthu cynhyrchion gwaharddedig. Awgrymodd ymatebydd arall na ddylid gosod terfyn uwchlaw 10% o elw blynyddol datganedig, gan nodi y gallai unrhyw beth uwch na hyn effeithio ar fasnach. Codwyd pryderon gan Ffederasiwn y Busnesau Bach hefyd ynghylch dirwyon anghymesur ac anghyson posibl a allai effeithio'n andwyol ar fusnesau llai.

Roedd ymateb gan un awdurdod lleol o blaid graddfa symudol, gan nodi bod dull o'r fath wedi'i fabwysiadu gyda rheoliadau cyfyngiadau COVID-19 lle cafodd gosbau am achosion dilynol o dorri rheolau eu dyblu. Awgrymwyd y byddai hyn, ynghyd â chanllawiau ar gosbau sy'n gysylltiedig â maint busnes, yn ffordd fwy effeithiol o bennu cosbau. Roedd yr ymateb yn awgrymu hefyd y gallai cosbau ariannol fod yn seiliedig ar y gwerthoedd ardrethol annomestig, system debyg i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer pennu lefelau ffioedd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 h.y. Band A: Dim i £4,300, Band B: £4,301 i £33,000 etc. Dywedodd ymatebydd arall y dylai unrhyw derfyn fod yn unol â chosbau ariannol tebyg mewn polisïau amgylcheddol.

**<u>Ymatebion enghreifftiol</u>**

*“Ydw. Oni bai bod y costau'n uchel i ddefnyddwyr plastig does dim cymhelliant iddyn nhw newid”*. **Unigolyn**

*“Ydw, dylai cosbau ariannol fod yn gymesur ac yn rhesymol i lefel y diffyg cydymffurfio ond dylen nhw fod â'r gallu i gyd-fyna â chosbau llys yn y senario gwaethaf."* **Cyngor Sir Fynwy**

## Cwestiwn 4. A ydych yn cytuno â'n penderfyniad i beidio â chynnwys cosbau ariannol penodedig yn ein rheoliadau? Rhowch eich rhesymau.

| C4 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y** | **N** | **Ddim yn siŵr** | **Dim ateb/sylw** |
| **Niferoedd** | **18** | **5** | **1** | **7** |
| **Canran** | 58% | 16% | 3% | 23% |

Dim ond cyfran fach o ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu’r ffaith nad ydym yn cynnwys cosbau ariannol penodedig yn ein rheoliadau. O'r rhai a oedd eisiau cosbau ariannol penodedig, dadleuwyd y byddai'r defnydd ohonynt yn caniatáu sefydlu gwerthoedd a gytunwyd yn genedlaethol er mwyn osgoi unrhyw ddryswch i fusnesau a rheoleiddwyr fel ei gilydd. Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai defnyddio cosbau penodedig yn rhwystr ychwanegol mewn perthynas â thoriadau penodol.

O'r rhai a oedd yn cytuno â'r penderfyniad i beidio â chynnwys cosbau ariannol penodedig, roedd y rhan fwyaf yn ffafrio'r dull amrywiadwy, a hyblygrwydd hynny wrth ystyried achosion o dorri rheolau fesul achos.

**<u>Ymatebion enghreifftiol</u>**

“*Mae CIWM Cymru yn cytuno nad yw cosbau penodedig yn briodol o ystyried yr amrywiaeth eang ym maint y busnesau sy'n cael eu heffeithio, a'r amrywiaeth o droseddau posibl*”. **Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru.**

*Na. Mae'n rhaid i ddeddfwriaeth gael seiliau ariannol cadarn!* **Unigolyn**

## Cwestiwn 5. A ydych yn cytuno â chynnwys hysbysiadau stop yn ein rheoliadau? Rhowch eich rhesymau.

| C5 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y** | **N** | **Heb ateb ydw na nac ydw** | **Dim ateb** |
| **Niferoedd** | **23** | **2** | **0** | **6** |
| **Canran** | 74% | 7% | 0% | 19% |

Dim ond dau ymatebydd oedd yn anghytuno gyda'r defnydd o hysbysiadau stop, gydag un awdurdod lleol yn awgrymu nad oeddent yn angenrheidiol gan ddweud mai'r unig beth y byddent yn ei wneud fyddai cymhlethu'r broses o ymdrin â throseddau. Roedd ymatebydd arall yn dadlau, gan leisio'r un gwrthwynebiad i gwestiynau eraill, fod newid ymddygiad yn ddull mwy effeithiol na chamau gorfodi.

Roedd eraill yn fwy cefnogol i'r cynnig, gan gefnogi eu cynnwys yn y rheoliadau ac yn nodi y byddent yn rhwystr effeithiol. Awgrymodd un ymatebydd y byddai hysbysiadau stop yn helpu i gefnogi newid mewn ymddygiad ac yn caniatáu i fusnesau newid arferion cyn bod angen cymryd camau gorfodi pellach.

Fe wnaeth sawl ymatebydd gyfiawnhau eu cefnogaeth gyda sylwadau ac arsylwadau ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys Safonau Masnach Cymru a sawl awdurdod lleol a gytunodd â'u defnydd pe bai canllawiau clir yn cyd-fynd â hwy, yn enwedig wrth benderfynu sut y byddai diffyg cydymffurfiaeth yn peri 'risg sylweddol' a 'niwed difrifol' i'r amgylchedd. Amlygodd yr ymatebion hyn hefyd y ffaith bod costau ychwanegol yn gysylltiedig ag ailymweld â safle busnes er mwyn sicrhau ei fod wedi cydymffurfio â gofynion yr hysbysiad stop a chyhoeddi tystysgrif gwblhau y byddai angen ei chynnwys mewn unrhyw Asesiad Effaith.

Nododd Ffederasiwn y Busnesau Bach fod hysbysiadau stop yn fwy ffafriol ar unwaith i fusnesau llai yn hytrach na chosbau ariannol, gan nodi bod cyfyngiadau yn aml ar eu gallu i lywio deddfwriaeth. Fel gydag ymatebion i gwestiynau eraill, ystyriwyd bod y mater o gymesuredd a thegwch yn bwysig, gan nodi mai dim ond fel dewis olaf pan fetha popeth arall y dylid defnyddio gorchymyn i fusnes roi'r gorau i fasnachu.

**Ymatebion enghreifftiol**

"*Na. Maen nhw'n ddiangen. Yn hytrach na symleiddio sancsiynau sifil, maen nhw'n gor-gymhlethu'r hyn a allai fod yn broses gymharol syml ar gyfer ymdrin â thramgwyddau. Mae rheoleiddwyr llywodraeth leol yn gyfarwydd â defnyddio Hysbysiadau Gwella, Hysbysiadau Gwahardd, Hysbysiadau Cau, Hysbysiadau Camau Adfer, etc., ac maent eisoes yn mabwysiadu dull "hierarchaeth orfodi" ar gyfer gorfodi, h.y. yn aml rhoddir cyngor ysgrifenedig i fusnesau am fân dramgwyddau er mwyn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth yn y dyfodol heb yr angen i gymryd camau gorfodi ffurfiol. Yn dibynnu ar natur a math yr achos o ddiffyg cydymffurfio a ganfyddir, mae camau gorfodi eraill, yn amrywio o rybuddion ysgrifenedig ffurfiol i erlyniad ar gael yn dibynnu ar amgylchiadau*

*pob achos a difrifoldeb y tramgwyddau honedig. Felly, mae cyflwyno Hysbysiad o Fwriad a Thystysgrifau Cwblhau yn ddiangen”.* **Dienw**

*“Rydyn ni'n cytuno â chynnwys hysbysiadau stop, yn enwedig o ran achosion difrifol a sylweddol o dorri rheolau sydd â risg uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a/neu'r amgylchedd.*
*Mae'r defnydd o hysbysiadau stop yn caniatáu mwy o hyblygrwydd gorfodi drwy weithredu fel mesur ataliol ychwanegol, gan ystyried effeithiau ehangach y drosedd.*
*Mae'n rhaid i'r cyfrifoldeb i wirio a chyhoeddi tystysgrifau cwblhau fod gyda'r Awdurdod Lleol, ac yn ddelfrydol dylid eu cyhoeddi o fewn cyfnod penodol o amser, a dylid nodi hyn yn glir yn yr hysbysiad stop.* **Prifysgol Manceinion.**

## Cwestiwn 6. A ydych yn cytuno â chynnwys ymgymeriadau gorfodi yn ein rheoliadau? Rhowch eich rhesymau.

| C6 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Y | N | Heb ateb ydw na nac ydw | Dim ateb |
| **Niferoedd** | **23** | **2** | **1** | **5** |
| **Canran** | 74% | 7% | 3% | 16% |

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â chynnwys ymgymeriadau gorfodi yn ein rheoliadau, gyda dim ond dau ymatebydd yn anghytuno. Fel gyda hysbysiadau stop, nododd un ymatebydd awdurdod lleol fod yr offer gorfodi hyn wedi bod ar gael ers dros 20 mlynedd ac anaml y cawsant eu defnyddio mewn perthynas ag erlyniadau. Yn hytrach, awgrymodd yr ymatebydd y byddai hysbysiad cydymffurfio, ynghyd â'r posibilrwydd o gynyddu cosbau ariannol penodedig yn raddol, yn well gan y byddai'n drefn orfodi gymharol syml i'w gweinyddu.

Roedd y rhai o blaid yn aml yn awgrymu bod ymgymeriadau gorfodi yn ffordd ddefnyddiol o ymdrin â busnesau a oedd yn barod i gymryd rhan mewn datrys achosion o dramgwydd neu achosion posibl o dramgwyddo. Teimlwyd bod hwn yn ddull mwy pragmatig ac yn caniatáu i fusnesau ddatrys unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn wirfoddol heb fod angen mesurau mwy cosbedigol. Dadleuodd Ffederasiwn y Busnesau Bach y byddai hyn yn helpu busnesau llai nad oes ganddynt y gallu cyfreithiol neu weinyddol o bosibl i ymdrin â chamau gorfodi eraill. Amlygodd eu hymateb yr angen hefyd i reoleiddwyr gydweithio â busnesau llai pe bai ymgymeriad gorfodi yn cael ei gyhoeddi fel eu bod yn ymwybodol bod opsiwn o'r fath ar gael. Byddai angen gwybodaeth ychwanegol hefyd fel bod y busnesau yn deall beth fyddai ymgymeriad gorfodi yn ei olygu a'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio â'r gofynion.

Fel gydag ymatebion i gwestiynau eraill, codwyd yr angen hefyd am arweiniad a chymorth ariannol i helpu rheoleiddwyr i ymgymryd â'r math hwn o gamau gorfodi.

<u>**Ymatebion enghreifftiol**</u>

*‘Ydw, ond hoffwn wybod sut bydd rheoleiddwyr awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi'n ariannol er mwyn sicrhau bod adnoddau a gallu priodol ar gael i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr i gefnogi eu heffeithiolrwydd."* **Dienw**

*“Ydw. Pwrpas y rheoliad yw annog gwell arferion busnes - felly mae'n gwneud synnwyr i weithredu ymgymeriadau gorfodi. Fodd bynnag, dylai fod mecanwaith i apelio”.* **British Beauty Council**

## Cwestiwn 7. A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer y mecanwaith apelio? Rhowch eich rhesymau.

| C7 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y** | **N** | **Heb ateb ydw na nac ydw** | **Dim ateb** |
| **Niferoedd** | **22** | **0** | **2** | **7** |
| **Canran** | 71% | 0% | 6% | 23% |

Nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig, gyda chwech heb ateb y cwestiwn. Ni atebodd dau ymatebydd y cwestiwn yn benodol, gydag un yn nodi nad oedd yn gwybod a defnyddiodd y llall ei ymateb i leisio barn ar sut roedd angen i unrhyw reoliadau ystyried busnesau llai.

O'r rhai a oedd o blaid, dim ond nifer fach a roddodd unrhyw sail resymegol i gefnogi eu hymateb. Cytunodd un ymatebydd fod mecanwaith apêl yn bwysig ac yn angenrheidiol, gan groesawu'r cynnig i ddefnyddio Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (FTT). Fodd bynnag, nodwyd bod y rhan fwyaf o reoleiddwyr llywodraeth leol yng Nghymru dim ond yn gyfarwydd â'r mecanweithiau apeliadau drwy'r Llysoedd Ynadon ac awgrymwyd y byddai angen hyfforddiant i gefnogi rheoleiddwyr yn y maes hwn. Roedd yr ymateb yn argymell hefyd darparu opsiwn ar gyfer "apêl gychwynnol" y gellid ei chyflwyno gyda'r awdurdod lleol. Teimlwyd y byddai hyn yn helpu i leihau'r angen i ddefnyddio'r llwybr FTT. Roedd ymatebion eraill yn adleisio galwadau am ganllawiau a hyfforddiant ar gyfer y broses apelio er mwyn sicrhau cysondeb dulliau gweithredu ymhlith rheoleiddwyr.

Yn gyffredinol, roedd Ffederasiwn y Busnesau Bach yn croesawu darpariaethau proses apelio er iddynt ailadrodd galwadau blaenorol am fwy o ystyriaeth i fusnesau llai wrth orfodi'r gwaharddiadau neu fesurau rheoleiddio tebyg eraill.

**<u>Ymatebion enghreifftiol</u>**

*“Ydw, ar yr amod bod y mecanwaith yn effeithlon ac yn gyflym. Does dim diben i apeliadau sy'n cymryd blynyddoedd i'w hystyried - bydd y camau anghyfreithlon yn parhau yn gyfrinachol. Natur ddynol”.* **Unigolyn**

*“Ydw, fodd bynnag, o ystyried y gallu i apelio yn erbyn swm y gosb, byddai canllawiau ar gyfer cysondeb wrth bennu symiau'r gosb dan sylw yn cael eu croesawu”.* **Cyngor Dinas Casnewydd**

## Cwestiwn 8. A ydych yn cytuno bod y dull gorfodi cyffredinol hwn yn rhesymol ac yn gymesur? Rhowch eich rhesymau.

| C8 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y** | **N** | **Heb ateb ydw na nac ydw** | **Dim ateb** |
| **Niferoedd** | **19** | **3** | **5** | **4** |
| **Canran** | 61% | 10% | 16% | 13% |

Roedd tri o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad bod y dull yn rhesymol ac yn gymesur, gan ddweud ei fod yn rhy gymhleth ac yn agored i anghysondeb. Roedd un ymatebydd yn dadlau bod angen dirwyon llymach a chamau gorfodi fwy trylwyr. Roedd tri ateb arall nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno â'r cwestiwn. Fodd bynnag, gwnaethant argymell rhoi ystyriaeth bellach i symleiddio unrhyw drefn orfodi a nodi ffyrdd o leihau cymhlethdod. Nododd dau o'r ymatebwyr hyn fod llawer o reoleiddwyr yn anghyfarwydd â chymhlethdodau cosbau sifil ac, felly, yn dueddol o beidio â defnyddio'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael. Amlygodd y llall, Ffederasiwn y Busnesau Bach, fod cymhlethdodau o'r fath hefyd yn heriol i fusnesau bach ac roedd risg y byddai rheoleiddwyr yn anghyson yn eu dull gweithredu.

O'r rhai a oedd yn cefnogi, darparwyd cyfiawnhad cyfyngedig gyda'r rhan fwyaf yn syml yn cytuno â'r cwestiwn. Croesawodd un ymatebydd, Prifysgol Manceinion, y gallu i fusnesau nodi unrhyw achosion o dorri'r gyfraith a'u cywiro eu hunain, gan nodi bod y dull hwn yn annog cydymffurfiaeth barod a chyfleoedd i ddysgu. Ychwanegodd nad oedd dirwyon cyffredinol a gorfodi yn briodol o ystyried cymhlethdodau ailgylchu gwastraff plastig. Roedd yr ymateb yn awgrymu bod yn rhaid nodi'n glir yr union fathau o gynhyrchion plastig untro er mwyn helpu i leihau unrhyw ddryswch posibl ymhlith busnesau.

**Ymatebion enghreifftiol**

*‘Gellid ystyried bod yr amrywiaeth eang o sancsiynau yn gwneud y broses yn fwy cymhleth, a chynyddu'r potensial am ddiffyg cysondeb o ran dull gweithredu ar draws rheoleiddwyr. Mae paragraff 73 yn awgrymu y bydd busnesau'n cydymffurfio ar y cyfan, gan felly gyfyngu'r angen am sancsiynau - er mai hwn fyddai'r canlyniad a ddymunir i reoleiddwyr, gall olygu nad yw'r rheoleiddiwr yn dod yn ddigon cyfarwydd â chymhlethdodau'r sancsiynau sy'n berthnasol i'r Bil. Os oes potensial i symleiddio, byddai hynny'n cael ei groesawu.’* **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

*“Na. Yn ein barn ni, mae'r dull a'r drefn arfaethedig ar gyfer gorfodi yn rhy gymhleth. Er bod elfen o "Y Llygrwr sy'n talu" i'w groesawu lle bo hynny'n briodol”.* **Dienw**

## Cwestiwn 9. A oes gennych unrhyw dystiolaeth y gallwn ei defnyddio i'n helpu i asesu costau gweinyddu a gorfodi ein sancsiynau sifil arfaethedig?

Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn gallu darparu tystiolaeth fanwl i helpu asesu costau, gyda'r rhan fwyaf naill ai'n darparu arsylwadau cyffredinol neu ddim yn ymateb i'r cwestiwn. O'r rhai a roddodd ymateb, gwnaed sawl cyfeiriad at yr angen i bennu nifer y safleoedd yng Nghymru sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y gwaharddiadau ac i'r costau i awdurdodau lleol gael eu cyfrifo'n unol â hynny. Er enghraifft, rhoddodd Cyngor Sir Casnewydd amcangyfrif bras o gamau gweithredu posibl am beidio â chydymffurfio yn eu hardal:

*Mae gan Gasnewydd oddeutu 3,000 o fusnesau hysbys. 60% fyddai cyfran o'r busnesau hynny yn ôl amcangyfrif sy'n atebol o dan y Bil - felly gallai 1,800 o fusnesau fod yn atebol. Fel rheol, wrth ddefnyddio model cydymffurfio 80/20, amcangyfrifir y byddai tua 360 o fusnesau angen rhyw fath o ymyrraeth ychwanegol. Gan gymhwyso'r model cydymffurfio 80/20 ymhellach, amcangyfrifir y gallai tua 72 o fusnesau fod angen camau gorfodi sef cosb sifil*".

Ychwanegodd Cyngor Sir Fynwy y byddai angen i unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol gydnabod efallai na fydd cyfraddau cydymffurfio yn ôl amcangyfrif yn adlewyrchu'r sefyllfa mewn mannau eraill yng Nghymru ac y byddai angen i unrhyw ddarpariaethau ariannu ganiatáu ar gyfer hyn. Awgrymodd awdurdod lleol arall, Cyngor Sir Ceredigion, y gallai'r costau sydd eu hangen i weithredu'r drefn orfodi Parcio Sifil fod yn fodel gweithio addas.

Awgrymodd ymateb gan Brifysgol Manceinion y dylai unrhyw asesiad ystyried hefyd y costau i randdeiliaid eraill yn y gadwyn gyflenwi plastigau. Cyfeiriwyd at ymchwil sydd heb ei gyhoeddi gan y Brifysgol a oedd yn amlygu "*tensiynau ymhlith rhanddeiliaid wrth benderfynu pwy ddylai fod yn gyfrifol am gost y newidiadau strwythurol angenrheidiol i fodloni gofynion cyllidol neu ddeddfwriaethol o'r fath*".

**Ymatebion enghreifftiol**

*Byddai nifer y safleoedd sy'n atebol mewn perthynas â'r Bil, yn pennu'r gofynion tebygol ar reoleiddwyr, yn seiliedig ar gyfran y gydymffurfiaeth yn ôl amcangyfrif*. **Safonau Masnach Cymru**.

## Cwestiwn 10. A ydych yn credu y gallai'r gyfundrefn orfodi gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg? Rhowch eich rhesymau.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo na fyddai unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg, gyda llawer yn nodi gofynion cyfreithiol presennol mewn perthynas â chyfathrebu a dogfennaeth ddwyieithog. Nododd Cyngor Sir Ceredigion ei bod yn bwysig bod rheoleiddwyr yn gallu gorfodi darpariaethau'r ddeddfwriaeth yn effeithiol yn y Gymraeg neu yn Saesneg, gydag unrhyw apêl yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf hefyd yn cael ei chynnal yn y Gymraeg os oedd y sawl sy'n apelio yn dymuno hynny.

Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai effaith gadarnhaol gan y byddai defnyddio deunydd dwyieithog i hysbysu busnesau o'r gwaharddiadau yn caniatáu i fusnesau Cymraeg gyfleu'r newidiadau hyn yn y Gymraeg ac annog y defnydd ehangach ohoni.

Nid oedd unrhyw un o'r ymatebwyr o'r farn y byddai effaith negyddol.

**Ymateb enghreifftiol**

'*O ran y dylanwad ar y Gymraeg, gellir ystyried bod y drefn orfodi yn niwtral. Mae gofynion cyfreithiol presennol mewn perthynas ag awdurdodau lleol a chyfathrebu dwyieithog.'* **Cyngor Dinas Casnewydd**

*"Dim y naill na'r llall cyn belled â bod y ddau yn cael eu darparu drwyddi draw i gefnogi mynediad*". **Dienw**

## Sylwadau eraill: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w codi:

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi barn a sylwadau ehangach ar y cynigion. Ceir trosolwg o'r ymatebion hyn isod.

Adnoddau awdurdodau lleol a gallu gorfodi

Gofynnodd Safonau Masnach Cymru am ragor o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y Bil, yn benodol mewn perthynas â chostau ychwanegol gorfodi. Cafodd pryderon tebyg ar gostau eu codi gan Gyngor Tref Penarth gan nodi bod y cynigion yn cyflwyno *'gallu gweinyddol ychwanegol... o fewn awdurdodau lleol sydd eisoes dan straen difrifol'*. Fodd bynnag, roedd yr ymatebydd yn croesawu'r ffocws ar ymgysylltu'n gydweithredol â busnesau er mwyn helpu i addysgu a chodi ymwybyddiaeth i sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Cangen Aberhonddu a Maesyfed) hefyd yn codi pryderon am orfodaeth, gan dynnu sylw at faterion penodol gyda galluoedd gorfodi ym Mhowys oherwydd cyllid ac arbenigedd cyfyngedig. Awgrymwyd ganddynt y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid ychwanegol, hyfforddiant priodol a chanllawiau parhaus i gynghorau lleol er mwyn gwella effeithiolrwydd unrhyw orfodaeth. Cyfeiriwyd hefyd at y lefelau gorfodi isel sy'n dod i'r amlwg yn yr Alban yn dilyn cyflwyno eu gwaharddiadau.

Rheoli gwastraff a chynhyrchion amgen

Darparodd Prifysgol Manceinion sylwadau ychwanegol yn tynnu sylw at gymhlethdodau ymdrin â gwastraff plastig untro a'r angen i wella'r cyfundrefnau presennol ar gyfer rheoli gwastraff. Nodwyd bod angen cydbwysedd hefyd yn lefelau'r cosbau ariannol a ddefnyddir. Os ydynt yn rhy uchel gallai hyn arwain at gynnydd mewn gweithgynhyrchu deunyddiau eraill, a allai fod yn fwy niweidiol i'r amgylchedd, ac os ydynt yn rhy isel yna "g*allai hyn arwain at osgoi buddsoddiadau mewn seilwaith a allai wneud y system blastigau bresennol yn fwy cylchol".* Daeth y sylw i ben drwy nodi bod y cynigion yn briodol ac yn gymesur ar y cyfan.

Dywedodd y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff fod angen cynlluniau i sicrhau nad oedd manteision y gwaharddiadau yn cael eu "*gorbwyso gan lai o ffocws mewn meysydd eraill o reoli gwastraff ac adnoddau."* Awgrymwyd ganddynt hefyd y dylai unrhyw ddirwyon a dderbynnir fod o fudd i achosion sy'n gysylltiedig â gwastraff ac adnoddau.

Awgrymodd un ymatebydd fod darparwyr eitemau amgen yn cael cymorth er mwyn cynnig eu cynhyrchion am yr un pris ag eitemau plastig untro cyfredol. Roedd angen cefnogaeth ychwanegol hefyd i'r rhai sy'n cynhyrchu'r cynhyrchion gwaharddedig i symud i ddewisiadau amgen.

Diffiniad o blastig

Rhannodd Ffederasiwn y Busnesau Bach bryderon ynghylch y diffiniad o blastig a pholymerau yn y ddeddfwriaeth, yn enwedig sut mae'n diffinio plastigau y gellir eu compostio, plastigau bioddiraddadwy a phlastigau sy'n seiliedig ar ddefnyddio biodechnoleg. Nodwyd bod diffiniadau tebyg yn cael eu defnyddio mewn mannau eraill yn y DU ar gyfer deddfwriaeth arall (er enghraifft y Dreth Blastig a'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu) a sut gallai hyn gael effaith andwyol ar y gwaith o ddod o hyd i atebion arloesol i ddeunydd pacio plastig. Daeth cais ganddynt i Lywodraeth Cymru ailystyried y diffiniad hwn er mwyn osgoi'r effeithiau negyddol posibl y gallai hyn eu cael ar weithgynhyrchwyr pecynnu cynaliadwy Cymru.

Diffyg Fersiynau Hawdd eu darllen ac Asesiad o'r Effaith

Mynegodd Comisiynydd Plant Cymru ei siom ynghylch absenoldeb fersiwn hawdd ei darllen neu fersiwn i blant a phobl ifanc o'r ymgynghoriad, gan nodi bod materion amgylcheddol yn bryder i bobl ifanc. Mynegwyd pryderon hefyd am absenoldeb Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Sylwadau cyffredinol

Defnyddiodd rhai ymatebwyr yr adran hon i ddarparu sylwadau cefnogol ac i groesawu'r cynigion. Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai cosbau ar gyfer busnesau fod yn fwy llym ac awgrymodd un arall y dylid cynnwys gweithgynhyrchwyr hefyd. Awgrymodd un arall y dylid rhoi arweiniad ar ble i brynu dewisiadau amgen cynaliadwy a fforddiadwy.

Roedd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra yn cytuno â'r cynigion ar y cyfan, ond nododd yr ymateb y dylid mabwysiadu hierarchaeth o sancsiynau gyda dim ond y camau mwyaf difrifol yn cael eu defnyddio i ymdrin â throseddwyr mynych. Ar ben hynny, awgrymodd y dylid ystyried mesurau di-gosb eraill i gyflawni cyfraddau cydymffurfio uchel. Er enghraifft, dylid cyhoeddi canllawiau sydd â'r nod o helpu busnesau i ddeall y bil ymhell cyn iddo ddod i rym. Yn ogystal, dylid cytuno ar amserlen y gwaharddiad gan ganiatáu digon o amser i fusnesau baratoi.

## Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf

Rydym yn croesawu'r ymatebion i'n hymgynghoriad a'r holl gefnogaeth a roddwyd i'n cynigion. Mynegwyd sawl pryder a gwahaniaeth barn gan ymatebwyr a byddwn yn eu hystyried yn ofalus a myfyrio ynghylch a oes angen newidiadau wrth wneud ein rheoliadau. Mae'r profiad a rennir gan y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol o gymryd camau gorfodi ac o ddefnyddio sancsiynau sifil yn amhrisiadwy. Yn yr un modd, mae barn cyrff sy'n cynrychioli busnesau hefyd wedi rhoi safbwynt amgen i'r rhai sy'n ymdrechu i gydymffurfio ag unrhyw ddeddfau newydd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r sectorau hyn wrth i ni fwrw ymlaen â gweithredu'r gwaharddiadau.

Unwaith y bydd yr holl ymatebion wedi'u hystyried, bydd Ymateb y Llywodraeth yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Ein bwriad yw i'r rheoliadau ddod i rym ym mis Hydref 2023.

Gall y dyddiad hwn fod yn destun newid yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael a'r prosesau deddfwriaethol gofynnol.